COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 17 EBRILL 2019 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | DG Owen | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| RMI Shaw | CE Smith | SG Smith | JC Spanswick |
| RME Stirman | G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, A Hussain, JE Lewis, B Sedgebeer, E Venables, SR Vidal a/ac MC Voisey

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

298. Y CYN GYNGHORYDD LC MORGAN

Gyda thristwch, cyhoeddodd y Maer farwolaeth y cyn Gynghorydd ac Aelod Cabinet LC Morgan, cododd pawb ar eu traed mewn tawelwch fel arwydd o barch.

Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r cyn Gynghorydd Morgan a ystyriodd yn gyfaill yn ogystal â chydweithiwr. Talodd deyrnged hefyd i'w wasanaeth hir i gymuned Ynysawdre yr oedd wedi'i chynrychioli ers 30 mlynedd, gan eistedd ar hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol. Datganodd mai ei etifeddiaeth barhaol oedd y rhan a chwaraeodd yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen, pwll nofio Ynysawdre, Ysgol Gynradd newydd Brynmenyn ac ar ôl hynny gwireddu Tŷ Ynysawdre. Roedd Cymunedau'r Cabinet yn drist o glywed am farwolaeth y cyn Gyng. Morgan a wasanaethodd yr awdurdod hwn fel un o'i Aelodau sefydlu a'r Cyngor Sir a'i rhagflaenodd yn rhagorol, ac roedd yn ei ystyried yn gyfaill mynwesol.

Talodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio deyrnged i'r cyn Gynghorydd Morgan a roddodd groeso iddo fel Aelod Cabinet ac y rhannodd y ddau ohonynt gariad at wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a theithio yn Sbaen. Wrth dalu teyrnged i'r cyn Gynghorydd Morgan, datganodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar iddo ddysgu cryn dipyn oddi wrtho ac roedd y ddau ohonynt wedi

gweithio yn y diwydiant mwyngloddio. Gweithiodd y cyn Gynghorydd Morgan mewn achub ac iechyd a diogelwch yn y pyllau. Datganodd y byddai'n ei golli'n arw ac roedd yn meddwl am ei deulu.

Wrth dalu teyrnged i'r Cynghorydd Morgan, datganodd y Cynghorydd Watts, er gwaetha'u gwahaniaethau gwleidyddol, eu bod nhw wedi dod yn ffrindiau a byddai'n cael ei golli'n arw. Talodd y Cynghorydd T Thomas deyrnged i'r cyn Gynghorydd Morgan a ystyriwyd yn gynnes gan gymuned Ynysawdre yr oedd yn ei chynrychioli. Datganodd y Cynghorydd Green ei fod yn drist ofnadwy o glywed am farwolaeth y Cynghorydd Morgan a dim ond atgofion da oedd ganddo amdano.

299. DATGAN CYSYLLTIAD

Gwnaed y Datganiad Cysylltiad canlynol:

Datganodd y Cynghorydd DBF White Gysylltiad Anffafriol yn eitem 11 yr Agenda – Diswyddiadau a Chostau Ymddeol yn Gynnar o Dros £100,000 gan mai rheolwr llinell ei wraig oedd y gweithiwr. Gadawodd y Cynghorydd White y cyfarfod wrth i'r eitem hon gael ei hystyried.

300. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 20 Mawrth 2019 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

301. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor am yr ymrwymiadau yr oedd ef a'i Gymar wedi'u mynychu yn ystod y mis diwethaf a oedd yn cynnwys y Gwobrau Dinasyddiaeth lle diolchodd y swyddogion am eu hymdrechion i wneud y diwrnod yn llwyddiant. Agorodd y Maer a'i Gymar Ysgol Gynradd newydd Pencoed a mynychodd agoriad Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd ym Metws. Yn ogystal, mynychodd y Maer a'i Gymar ginio Dathlu Deugain Rockwool, Cinio rhyng-grefyddol Cyngor Moslemaidd Cymru, agoriad Arddangosfa Vernon Hartshorn, Cinio Llywyddol y Clwb Rotari, Cyflwyniad Medal yr Ymerodraeth Brydeinig i Alan Humphreys a Chyngerdd Flynyddol Côr Merched Llynfi. Agorodd hefyd y toiledau a'r ardaloedd newid newydd i'r anabl yn Halo Bridgend, cyflwynodd wobrau yn nhaith Feicio Elusennol Clwb Rotari Pen-y-bont ar Ogwr, dawns elusennol Maer Porthcawl, gwasanaeth Sul y Blodau yn Amlosgfa Margam a phen-blwydd Priodas Mr a Mrs G Evans o Faesteg o 60 o flynyddoedd.

Dirprwy Arweinydd

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod i'r Aelodau am agoriad diweddar y ddwy ysgol gynradd newydd yn Ysgol Gynradd Pencoed ac Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, Betws, sy'n gwasanaethu cymoedd Garw ac Ogwr, lle mae 3 o'i wyrion yn ddisgyblion. Datganodd fod y Cyngor yn eithriadol o ddiolchgar am y cyllid a dderbyniodd gan Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif, a rhoddodd ganmoliaeth i BAM Construction am eu gwaith yn Ysgol Gynradd Pencoed ac i Andrew Scott Ltd, sef adeiladwyr Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd, a gyflwynodd ddwy ysgol hynod drawiadol sy'n galluogi'r disgyblion a'r athrawon i elwa ar amgylcheddau dysgu o'r radd flaenaf a chefnogi disgyblion i ragori a diwallu eu potensial.

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod dros 80 o entrepreneuriaid lleol addawol wedi cael y wybodaeth a'r offer angenrheidiol i ddechrau eu busnes eu hunain ar ôl mynychu

cwrs wythnos o hyd gyda'r PopUp Business School. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, a gefnogwyd gan dîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr y Cyngor, a ariannwyd trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Bydd entrepreneuriaid lleol yn parhau i gael eu cefnogi ac mae manylion ar gael ar wefan y Cyngor.

Aelod Cabinet Cymunedau

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Cymunedau y bydd y cyngor yn cymryd rhan yn rhaglen effeithlonrwydd ynni domestig diweddaraf Llywodraeth Cymru sy'n cael ei chreu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ar draws Cymru. Bydd cannoedd o gartrefi lleol yn gymwys i dderbyn arian newydd yn nes ymlaen eleni i gyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni, sydd wedi'u hanelu at leihau biliau tanwydd. Ymhlith y mesurau arbed ynni y gellir eu hariannu trwy'r rhaglen mae: diogelu rhag drafft, bylbiau golau ynni isel, inswleiddio'r llofft, inswleiddio wal geudod, falfiau rheiddiadur thermostatig, systemau gwres canolog, rheiddiaduron, a thechnolegau adnewyddadwy fel pympiau gwres a phaneli solar. Datganodd y bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Arbed am Byth a Llywodraeth Cymru i benderfynu ble fydd y rhaglen yn cael ei chynnig yn lleol i wneud y mwyaf o'i heffaith.

Yn ogystal, rhoddodd yr Aelod Cabinet Cymunedau wybod i'r Cyngor am lansiad diweddar ymgyrch "Caru a Chadw'n Lân" a fynychwyd gan ysgolion cyfrannog.

Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod y digwyddiad mini gemau OlympAge rhwng cenedlaethau cyntaf erioed wedi'i gynnal yng Nghanolfan Bywyd Cwm Ogwr Halo yn ddiweddar. Mae plant a phobl hŷn o'r gymuned leol wedi creu timau i gystadlu mewn gweithgareddau a ddyluniwyd i wella symudedd, ffitrwydd a rhyngweithio cymdeithasol, ac yn cynnig ffordd hwyliog o annog pobl o bob oedran i fod yn weithgar. Edrychodd ymlaen at weld mwy o fini Gemau Olympage yn digwydd yn y dyfodol.

Rhoddodd wybod i'r Aelodau hefyd fod y cyfrifoldeb am wasanaethau gofal iechyd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bellach wedi symud o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Gofynnodd i'r Aelodau atgoffa'r etholwyr na fyddai'r newid yn y ffin yn effeithio ar y ffordd y cyflwynir gwasanaethau i gleifion, a byddant yn parhau i gael mynediad at ofal a derbyn eu gofal yn yr un ffordd ac o'r un lleoliadau ag y maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd. Datganodd y bydd y newid yn y ffin yn gweld mwy o gydweithrediadau'n symud i'r dwyrain a Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, ac er bod swm sylweddol o waith wedi cael ei gyflawni y tu ôl i'r llenni, cafwyd trawsnewid di-dor, diolch i ymdrechion y swyddogion ac yn benodol, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol fod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y Cyngor, y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a Chyfoeth Naturiol Cymru ar brosiect i fonitro ansawdd aer yng nghyffiniau'r ysgolion lleol. Bydd y prosiect monitro'n digwydd dros flwyddyn a bydd yn astudio ac yn cofnodi lefelau nitrogen deuocsid, sy'n llygrydd sy'n deillio o draffig hysbys, gydag offer monitro'n cael eu gosod yn Ysgol Gyfun Pencoed, Ysgol Gynradd Penybont, Coleg Penybont, Ysgol Gynradd Oldcastle, Ysgol Gynradd Cwmfelin, Ysgol Gynradd Newton, ac Ysgol Gynradd Bryncethin. Bydd gwybodaeth yn cael ei dadansoddi a'i defnyddio i gefnogi ymdrechion i newid y ffyrdd y mae plant yn mynd i'r ysgol ac oddi yno, ac i godi mwy o ymwybyddiaeth am bryderon ansawdd aer. Bydd y data a gesglir yn cael ei gynnwys yn

adroddiad cynnydd rheoli ansawdd aer lleol y Cyngor ar gyfer 2020. Os canfyddir bod y lefelau'n tresmasu ar neu'n fwy na'r amcanion ansawdd aer, hwyrach y bydd angen camau pellach i gyflwyno ardaloedd rheoli a llunio mesurau strategol a fydd yn lleddfu'r problemau ac yn gwella ansawdd yr aer.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol wybod i'r Cyngor y bydd rhieni sy'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol yn gallu cael mynediad i hyd at 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu am hyd at 48 wythnos y flwyddyn i'w plant tair a phedair blwydd oed yn fuan. Bydd y cynllun yn cychwyn ar 29 Ebrill ac yn helpu lleihau straen problemau gofal plant ar rieni sy'n gweithio, ac yn sicrhau nad yw gofal plant yn rhwystr i'r bobl sy'n edrych i ddychwelyd i'r gwaith. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Cyngor.

Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio.

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio, yn dilyn cefnogaeth prosiect Twyni i Dwyni'r Cyngor, y Royal Porthcawl bellach yw'r clwb golff cyntaf yng Nghymru i gael y Dystysgrif GEO am gynaliadwyedd. Mae'r cynllun wedi dwyn ynghyd sefydliadau, tirfeddianwyr a ffermwyr mewn partneriaeth sy'n ceisio rheoli'r morlin lleol mewn modd cynaliadwy. Datganodd fod eithin gwael wedi'i godi o safle'r Royal Porthcawl er mwyn adfer ardaloedd tywodlyd agored ac annog adfywiad grug arfordirol, mae pyllau wedi'u gwella a chynefinoedd wedi'u creu a'u hadfer ar gyfer rhywogaethau fel y Fadfall Ddŵr Gribog ac adar fel llinosod, cudyllod coch a breision melyn. Ei obaith yw y bydd yr Aelodau'n croesawu'r ymdrechion hyn sy'n dangos ymrwymiad clir tuag at natur, cynaliadwyedd, diogelwch y glaswelltir arfordirol ac adfer cynefinoedd.

Cyhoeddodd hefyd fod cyllid newydd wedi'i sicrhau i helpu busnesau yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr i edrych yn fwy deniadol i siopwyr ac ymwelwyr. Sefydlwyd y Gronfa Gwella Eiddo Canol Trefi gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol tuag at waith adnewyddu ar flaenau siopau, arwyddion, ffenestri a drysau, yn ogystal â gwelliannau saernïol mewnol ac allanol. Yn ogystal â gwneud canol y dref yn fwy bywiog, nod y gronfa yw helpu eiddo dibreswyl gwag i fod yn fwy deniadol i'w gosod, cefnogi busnesau presennol i fod yn fwy hygyrch, cynyddu nifer yr ymwelwyr, a chreu swyddi. Bydd y cynllun gwella masnachol yn clymu i mewn gyda'r cynlluniau ledled y sir i adfer defnydd o eiddo gwag, gan ddilyn llwyddiant y Fenter Treftadaeth Treflun sydd wedi cael effaith fawr yng nghanol trefi ers mwy na degawd. Mae manylion pellach ar y cynllun ar gael gan dîm adfywio'r Cyngor.

Prif Weithredwr Dros Dro

Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro wybod i'r Cyngor iddo adolygu rhywfaint o wybodaeth am wastraff ac ailgylchu'n ddiweddar a rhoddodd drosolwg o'r ffordd y mae'r Fwrdeistref Sirol wedi newid a datblygu ers y mileniwm. Yn 2000, pan safai'r gyfradd ailgylchu ledled y wlad ar 6% yn unig o holl wastraff aelwydydd, gosododd Llywodraeth Cymru darged cychwynnol o 15% erbyn 2004. Datganodd fod y Fwrdeistref Sirol wedi bwrw ei tharged mewn pryd a hefyd wedi agor canolfannau ailgylchu gwastraff newydd i aelwydydd. Roedd hyn cyn cyflwyno gwasanaeth casglu deunydd gwastraff papur a gwydr ailgylchadwy wrth ochr y ffordd yn 2005.

Erbyn 2006, roedd y gyfradd ailgylchu wedi codi i 26%, ac ar ôl cynnwys bwyd, plastigion a chaniau a chyflwyno casgliadau gwastraff pob pythefnos, cododd eto i gyflawni 48% erbyn 2011. Cyflwynwyd gwasanaeth ailgylchu gwastraff yr ardd yn 2013, ac yn 2016 safai'r gyfradd ailgylchu gyffredinol ar 59%. Roedd hyn cyn i'r Cyngor ddechrau ar ei drefniadau presennol gyda chynwysyddion newydd, terfyn o ddau fag a chasgliadau cewynnau pythefnosol.

Rhoddodd wybod i'r Aelodau erbyn yr amser hwn flwyddyn nesaf, bydd angen i bob awdurdod lleol yng Nghymru fwrw targed ailgylchu newydd o 64% i osgoi cosbau ariannol trwm fel rhan o ymdrechion Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'r wlad ailgylchu orau yn y byd. Roedd wrth ei fodd o gadarnhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y trywydd iawn i oroesi targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 64% ar gyfer 2020. Mae'r gyfradd ailgylchu gyffredinol gyfredol o 68.6%, yn golygu bod y Cyngor yn yr ail safle yng Nghymru ar gyfer ailgylchu ac o fewn trwch blewyn y tu ôl i Ynys Môn. Rhoddodd wybod i'r Aelodau na fu'r dasg i gyrraedd y fan hon yn hawdd bob amser, gan fod agweddau yn ogystal â gweithdrefnau wedi gorfod newid ac addasu, ac mae'r llwyddiant hwn i'w briodoli i ymdrechion ailgylchu'r trigolion lleol yn y pen draw. Datganodd nad yw'r broses ar ben eto ac ein bod yn edrych ar welliannau pellach er mwyn cyrraedd targed nesaf Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2025. Atgoffodd yr Aelodau fod y Fwrdeistref Sirol wedi symud o 15% yn y flwyddyn 2000 i 68.6% yn 2019.

Swyddog Monitro

Rhoddodd y Swyddog Monitro wybod i'r Cyngor fod rhai Aelodau heb gwblhau eu harchwiliadau DBS eto a byddai nodyn atgoffa'n cael ei anfon at Aelodau'n gofyn iddynt gwblhau'r archwiliadau.

302. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Cyngor fod y broses recriwtio am Brif Weithredwr parhaol yn parhau, a bod hyn yn cael ei gefnogi gan Solace in Business. Roedd y dyddiad cau am geisiadau ar 8 Ebrill, gyda'r Pwyllgor Penodiadau'n cwrdd yfory i ymgymryd â llunio'r rhestr hir o geisiadau sydd wedi dod i law. Bydd yr ymgeiswyr dethol yn mynychu canolfan asesu ar 30 Ebrill gyda chyfweliad i ddilyn gyda'r Pwyllgor Penodiadau a chyflwyniad i gyfarfod Eithriadol y Cyngor ar 1 Mai.

Adroddodd yr Arweinydd fod y cyntaf o ddau gyfleuster Gofal Ychwanegol newydd sbon wedi agor yr wythnos diwethaf. Datganodd fod Tŷ Ynysawdre'n cyflym droi'n ased cymunedol gwerthfawr, ac yn cynrychioli dull cwbl newydd o ofalu am bobl sy'n hŷn ac yn fwy agored i niwed. Ynghyd â'i chwaer ddatblygiad ym Maesteg, bydd Tŷ Ynysawdre'n cynnig manteision enfawr i bobl leol, ac yn ffurfio rhan fawr o'r cynlluniau parhaus i foderneiddio gwasanaethau gofal preswyl. Datganodd fod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Linc Cymru i ddarparu'r asedau cymunedol hollbwysig hyn a fyddai'n dod yn ddatblygiad tirnod a phoblogaidd a gydnabyddir ar raddfa eang yn y Fwrdeistref Sirol. Diolchodd i bawb a helpodd wireddu'r cyfleuster hwn.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Cyngor hefyd fod y paratoadau ar gyfer Brexit yn parhau, ac fel rhan o hyn, bydd cefnogaeth ar gael i helpu gwladolion yr UE heb fod o'r DU sy'n dymuno parhau i fyw a gweithio'n lleol. Yn ddiweddar, lansiodd y Swyddfa Gartref ei Chynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac fel rhan o'r broses hon, mae swyddogion yn ymchwilio a all y Cyngor gynnig gwasanaeth 'archwilio' ar gyfer ceisiadau gorffenedig i sicrhau bod yr holl ddogfennau hunaniaeth perthnasol wedi'u cynnwys. Mae'r gwasanaeth yn debygol o fod ar gael naill trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid neu yn Swyddfa Gofrestru Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'r bwriad o gyflymu'r broses ymgeisio a chynnig sicrwydd a thawelwch meddwl i drigolion lleol a allai gael eu heffeithio. Bydd y gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio a bydd Aelodau'n cael manylion pellach am y fenter hon wrth iddi ffurfio ac wrth i ragor o fanylion ddod yn hysbys.

303. CYNLLUN ARIANNOL WEDI'I DIWEDDARU I YSGOLION

Ceisiodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro gael cymeradwyaeth i'r Cynllun Ariannol diwygiedig i Ysgolion, yn enwedig y terfynau ariannol wedi'u diweddar ar gyfer yr archebion sefydlog ar gyfer contractau i ysgolion.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod gan ysgolion eu Cynllun Ariannol eu hunain sy'n gosod gofynion ariannol cyrff llywodraethol. Mae adolygiad o'r Cynllun wedi digwydd oherwydd nifer o brosesau a newidiadau gweithdrefnol angenrheidiol, gyda'r prif newidiadau wedi'u crynhoi yn yr adroddiad. Bu'r Cynllun drafft yn destun ymgynghori, heb unrhyw sylwadau na diwygiadau wedi'u cynnig gan gyrff llywodraethol. Datganodd fod y Cynllun diwygiedig yn dod â'r terfynau yn yr archebion sefydlog ar gyfer contractau i ysgolion i'r un lefel â'r rhai a gytunwyd ar gyfer y Cyngor yn ei Reolau Gweithdrefnau Contractau a, lle bo'n briodol, cynghorir yr ysgolion i geisio cefnogaeth yr adran Caffael Corfforaethol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a fyddai cyrff llywodraethol yn cael hyfforddiant ar y Cynllun diwygiedig, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro y byddai'r hyfforddiant hwnnw'n cael ei gynnal.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynllun Ariannol diwygiedig ar gyfer Ysgolion at ddibenion gweithredu'n syth.

304. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN Y CYNGHORYDD A HUSSAIN I'R AELOD CABINET – CYMUNEDAU

Mae ein polisi tipio presennol wedi dyddio ac nid yw'n bodloni anghenion ein trigolion yn y Fwrdeistref. O edrych o gwmpas, mae Awdurdodau cyfagos eraill wedi newid eu polisi tipio'n llwyddiannus ac yn arbed arian y trethdalwyr. Pryd ydym yn adolygu'r polisi hwn?

**Ymateb yr Aelod Cabinet – Cymunedau**

Adolygwyd y polisi trwyddedu presennol ar gyfer faniau a threlars mawr cyn gosod y contract gwastraff ym mis Ebrill 2017.

Rhaid wrth system rheoli a monitro effeithlon o ran y defnydd o gerbydau masnachol mewn canolfannau ailgylchu er mwyn sicrhau mai dim ond defnyddwyr preswyl gwirioneddol sy'n defnyddio'r safleoedd. Rhaid sicrhau nad yw'r safleoedd yn destun camdriniaeth gan fusnesau/mentrau masnachol sy'n ceisio gwaredu ar eu gwastraff am ddim ar draul y cyhoedd.

Mae'r system gyfredol yn gadael i ddefnyddwyr preswyl gwirioneddol gyda cherbydau o fath masnachol i ddefnyddio'r safleoedd (Heb gynnwys Brynmenyn oherwydd cyfyngiadau gallu ffisegol y safle) trwy system drwyddedu cyhyd â'u bod yn trefnu'r ymweliad safle 24 awr ymlaen llaw.

Bodola systemau rheoli ar ffurf trwyddedau tebyg gydag awdurdodau cyfagos fel Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Bro Morgannwg (ffi Bro Morgannwg o £15 y drwydded). Nid yw RhCT yn gweithredu system drwyddedu ond mae ganddo broses rhy heriol lle mae'n rhaid i ddefnyddwyr ddod â bil gwasanaeth, llythyr gan y cwmni cerbydau ar bapur pennawd sy'n datgan bod gan y defnyddiwr yr hawl i ddefnyddio'r cerbyd at ddefnydd personol neu gytundeb llogi, disgrifiad llawn o'r gwastraff a phrawf nad yw'r gwastraff yn fasnachol.

Cyn rhoi'r system reolaeth gyfredol ar waith yn 2010, roedd safleoedd amwynder CBSP yn destun camdriniaeth gwastraff masnach sylweddol, mae'r dulliau rheoli sydd ar waith ar hyn o bryd yn hollbwysig ac yn llwyddiannus. Gan fod y rhain wedi'u hadolygu'n

ddiweddar a bellach yn rhan o'r trefniant cyfamodol gyda Kier, ni fwriedir ailymweld â nhw hyd nes i'r contract gwastraff nesaf cael ei gaffael.

Gofynnodd y Cynghorydd T Giffard gwestiwn ychwanegol o ran ble gallai'r trigolion gael gwybodaeth am y polisi tipio.

Datganodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau y gall trigolion gael gwybodaeth o wefan y Cyngor, ynghyd â manylion yr oriau agor a sut gall trigolion gael trwyddedau ar gyfer trelars a meintiau trelars.

305. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

306. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad Paragraff 12 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Yn dilyn gweithredu prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd cyfeirio at yr uchod yn unol â'r Ddeddf, er mwyn ystyried yr eitemau a grybwyllir isod yn breifat gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd byddai'n cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y datganwyd uchod.

307. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

308. COSTAU DISWYDDO AC YMDDEOLIAD CYNNAR O DROS £100,000

Daeth y cyfarfod i ben am 15:47